CYMDEITHAS TAI CLWYD

CYNNWYS TENANTIAID

Byddwn yn:-

- Rhoi cyfle eang i chi gael eich cynnwys mewn gweithgareddau a chyfathrebu eich barn i ni.
- Eich hysbysu am y newyddion diweddaraf, drwy anfon:
  a) Ein cylchlythyr CADWYN i chi ddwywaith y flwyddyn, a gofyn i chi beth hoffech chi ei weld ynddo.
  b) Ein hadroddiad blynyddol.
- Gofyn am eich barn chi cyn diwygio polisïau neu gynnig newidiadau i'n gwasanaethau sy'n effeithio'n sylweddol arnoch chi, a sicrhau eich bod chi'n cael adborth am ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad a'r camau gweithredu yn deillio o hynny.
- Byddwn yn cynnal Diwrnod Tenantiaid a Gwibdaith yn flynyddol.
- Cynnal Arolwg Boddhad Tenantiaid llawn bob tair blynedd a chyhoeddi'r canlyniadau ac unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol yn CADWYN.
- Monitro ein gwasanaethau yn rheolaidd drwy gyfrwng holiaduron, arolygon a 'siopwyr dirgel' a chyhoeddi'r canlyniadau ac unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol yn CADWYN.
- Darparu cymorth i denantiaid a grwpiau cymunedol drwy fynychu eu cyfarfodydd.
- Cynorthwyo tenantiaid sy'n dymuno sefydlu grwpiau tenantiaid/ cymunedol newydd.
- Darparu cludiant a thalu costau gofal plant er mwyn eich galluogi i ddod i gyfarfodydd.
- Cynnig cymorth a hyfforddiant i chi ddod yn aelodau gweithgar o'n Bwrdd Rheoli, Gweithgor Cyfranogiad Tenantiaid, Grwpiau Ffocws a Llais Clwyd, fel bod gennych chi'r hyder a'r wybodaeth i weithio gyda ni.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP